# HUMAN RIGHTS
# HAWLIAU DYNOL

## EXAMPLES OF HUMAN RIGHTS ORGANISATIONS

### *Amnesty International*

Amnesty International was founded in London in 1961, and is the largest organisation in the world dedicated to promoting human rights. It has 1.8 million members in over 150 countries. Amnesty works in a number of ways:

- Researching and publicising the human rights situation in specific countries.
- Campaigning on rights-related issues, such as torture or arms control.
- Rallying its supporters to write to governments and diplomats, in order to highlight injustice and free political prisoners.

Amnesty International has achieved notable successes, including:

- The release of Brother Nguyen Thien Phung (Huan), a monk who spent 18 years in a Vietnamese prison for holding training courses and distributing religious books without government permission.
- Persuading the US Senate to pass a motion against cruel and degrading treatment, ensuring that all detainees are treated equally.
- Overturning an eviction order in Brazil, which would have resulted in 100 Guarani indigenous people losing their homes.

### *National Campaign on Dalit Human Rights*



There are 240 million Dalits in India (nearly 25% of its population). They are often called 'untouchables', because many consider them to be outside human society. Dalits generally suffer from poor education, perform menial jobs, and cannot access adequate healthcare or housing. Therefore, a number of their rights are denied, including the right to equality before the law.

The National Campaign on Dalit Rights addresses such injustices by:

- Calling on Indian society to recognise such discrimination as dehumanising and criminal, and to get rid of the practices that maintain it.
- Calling on the Indian government to recognise Dalits' human rights, to ensure that Dalits get a good education, and to protect their land rights.
- Calling on the international community to abolish such caste systems throughout the world.

## ENGHREIFFTIAU O GYRFF SY'N YMWNEUD Â HAWLIAU DYNOL

### *Amnest Rhyngwladol*

Sefydlwyd Amnest Rhyngwladol yn Llundain ym 1961, a dyma'r sefydliad mwyaf yn y byd sy'n ymroi i hyrwyddo hawliau dynol. Mae ganddi 1.8 miliwn o aelodau mewn dros 150 o wledydd. Mae Amnest yn gweithio mewn nifer o ffyrdd:

- Ymchwilio i sefyllfa hawliau dynol mewn gwledydd penodol, a chyhoeddi'r canlyniadau.
- Ymgyrchu ar faterion sy'n ymwneud â hawliau, e.e. arteithio neu reoli arfau.
- Annog ei rhwydwaith o gefnogwyr i ysgrifennu llythyrau at lywodraethau a diplomyddion, er mwyn dwyn sylw at annhegwch a rhyddhau carcharorion gwleidyddol.

Cafodd Amnest Rhyngwladol sawl llwyddiant pwysig, yn cynnwys:

- Rhyddhau'r Brawd Nguyen Thien Phung (Huan), mynach a dreuliodd 18 mlynedd yn y carchar yn Fietnam am gynnal cyrsiau hyfforddi a dosbarthu llyfrau crefyddol heb ganiatad y llywodraeth.
- Darbwyllo Senedd yr UDA i dderbyn cynnig yn erbyn ymdriniaeth greulon a difrïol, i sicrhau bod carcharorion yn cael eu trin yn deg.
- Gwyrdroi gorchymyn troi allan yn Brasil, a fyddai wedi arwain at 100 o bobl frodorol y Guarani yn colli eu cartrefi.

### *Yr Ymgyrch Genedlaethol o blaid Hawliau Dynol i'r Dalit*

Mae 240 miliwn o Dalit yn India (bron i 25% o'r boblogaeth). Yn aml fe'u gelwir yn 'rhai anghyffyrddadwy', oherwydd bod llawer yn meddwl eu bod y tu hwnt i gymdeithas dyn. Mae'r Dalit yn dioddef fel arfer rhag addysg sâl, yn gwneud gwaith diraddiol, ac nid oes modd iddynt gael gofal iechyd na thai addas. Felly mae nifer o'u hawliau dynol yn cael eu gwrthod iddynt, gan gynnwys yr hawl i gydraddoldeb yn llygaid y gyfraith.

Mae'r Ymgyrch Genedlaethol o blaid Hawliau Dynol i'r Dalit yn mynd i'r afael ag annhegwch o'r fath trwy:

- Galw ar y gymdeithas yn India i gydnabod bod gwahaniaethu o'r fath yn annynol ac yn erbyn y gyfraith, a diddymu'r arferion sydd yn eu cynnal.
- Galw ar lywodraeth India i gydnabod hawliau dynol y Dalit, i sicrhau y caiff y Dalit addysg dda, ac i amddiffyn eu hawl i'w tir.
- Galw ar y gymuned gydwladol i ddiddymu systemau dosbarth tebyg ym mhob rhan o'r byd.

## WHAT ARE HUMAN RIGHTS?

Human rights are things that people are entitled to simply because they are human. They are usually considered to be **universal** (everyone has them) and **inalienable** (they cannot be taken or given away).

There are a number of different types of human rights. Some relate to people's wellbeing (e.g. the right to food); others to freedom, or representation in government. People and their governments are expected to uphold human rights, and countries are often judged by how well they protect rights.

The relationship between individuals and governments was explored in ancient Greek and Roman thinking, and a set of fundamental rights was declared during the French Revolution in 1789. However, it was only in the 20th century that human rights were agreed internationally and incorporated into countries' laws.




## BETH YW HAWLIAU DYNOL?

Pethau y mae gan bobl hawl iddynt am mai pobl ydynt: dyna yw hawliau dynol. Cânt eu hystyried fel arfer yn bethau **cyffredinol** (mae pawb yn berchen arnynt) ac **anaralladwy** (nid oes modd amddifadu rhywun ohonynt, neu eu rhoi i rywun arall).

Mae sawl gwahanol fath o hawliau dynol. Mae rhai yn ymwneud â lles pobl (e.e. yr hawl i fwyd), eraill yn ymwneud â rhyddid, neu gynrychiolaeth lywodraethol. Disgwylir i bobl a'u llywodraethau gynnal hawliau dynol, ac yn aml bernir gwledydd yn unol â'r ffordd y maent yn amddiffyn yr hawliau hynny.

Bu Groegiaid yr oes glasurol a'r Rhufeinwyr yn ymholi i'r berthynas rhwng yr unigolyn a'r llywodraeth, ac yn Ffrainc yn ystod Chwyldro 1789 cyhoeddwyd cyfres o hawliau sylfaenol. Serch hynny, dim ond yn yr 20fed ganrif y cytunwyd yn gydwladol ar hawliau dynol cyn eu hymgorffori yn nghyfreithiau'r gwahanol wledydd.

## UNIVERSAL DECLARATION OF HUMAN RIGHTS

The *Universal Declaration of Human Rights* is the main global text on human rights. It was adopted by the United Nations on 10 December 1948; 191 countries are now members of the UN, and therefore expected to protect these rights. *The Declaration* contains 30 articles, some of which are as follows:

**Article 1**:
All humans are born free and equal in dignity and rights. They are endowed with reason and conscience and should act towards one another in a spirit of brotherhood.

**Article 5**:
No one shall be subjected to torture or to cruel, inhuman or degrading treatment or punishment.

**Article 19**:
Everyone has the right to freedom of opinion and expression; this right includes freedom to hold opinions without interference and to seek, receive and impart information and ideas through any media and regardless of frontiers.

## DATGANIAD CYFFREDINOL O HAWLIAU DYNOL

Y *Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol* yw prif destun y byd ar hawliau dynol. Cafodd ei fabwysiadu gan y Cenhedloedd Unedig ar 10 Rhagfyr 1948; bellach mae 191 o wledydd yn aelodau o'r CU, a disgwylir i'r rhain amddiffyn yr hawliau hyn. Rhennir y *Datganiad* yn 30 erthygl. Dyma rai ohonynt:

**Erthygl 1**:
Genir pawb yn rhydd ac yn gydradd â'i gilydd mewn urddas a hawliau. Fe'u cynysgaeddir â rheswm a chydwybod a dylai pawb ymddwyn y naill at y llall mewn ysbryd cymodlon.

**Erthygl 5**:
Ni ddylid poenydio neb, na thrin na chosbi neb yn greulon, annynol na'n ddiraddiol.

**Erthygl 19**:
Y mae gan bawb ryddid barn a mynegiant; fe gynnwys hyn yr hawl i ryddid barn heb ymyrraeth gan neb, a rhyddid i geisio, derbyn a chyfrannu gwybodaeth a syniadau trwy unrhyw gyfryngau, heb ystyried ffiniau gwlad.

## CASE STUDY 1: UNITED KINGDOM

The UK has a tradition of respect for its citizens' human rights. Most people enjoy a good standard of living, can play a part in democratic governance, and can seek redress if their rights are abused. The UK was one of the first countries to sign the European Convention on Human Rights in 1953 (see *Human Rights in Europe* section). In 1998 the **Human Rights Act** was passed, which confirmed that Convention as part of UK law, and made it illegal for government bodies to breach it.

However, the UK is not immune from criticism over human rights issues:

- During the 1970s-80s, when **suspected IRA terrorists** were interned, the government violated some prisoners' human rights by permitting what the European Court of Human Rights described as "cruel and inhuman treatment".
- Although the Human Rights Act applies to the government, courts have no power to stop any new **Act of Parliament** which contravenes it.
- The **Anti-Terrorism, Crime and Security Act** (2001) was introduced after limited Parliamentary discussion; its measures for detaining suspected terrorists were declared unlawful under the Human Rights Act.
- The **Prevention of Terrorism Act** (2005) allows house arrest of terrorist suspects where there is not enough evidence to bring them to trial. This replaced the 2001 Act, and still enables the government to 'opt out' of certain human rights, again leading to widespread criticism.

## ASTUDIAETH ACHOS 1: Y DEYRNAS GYFUNOL

Mae gan y DG draddodiad o barch at hawliau dynol ei dinasyddion. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn mwynhau safon byw uchel, yn medru chwarae eu rhan dan lywodraeth ddemocrataidd ac yn cael ceisio iawn os y tarfwyd ar eu hawliau. Y DG oedd un o'r gwledydd cyntaf i arwyddo'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ym 1953 (gweler yr adran *Hawliau Dynol yn Ewrop*). Ym 1998 derbyniwyd y **Ddeddf Hawliau Dynol**, gan gadarnhau felly bod y Confensiwn yn rhan o gyfraith y DG, a'i gwneud hi'n anghyfreithlon i gyrff llywodraethol ei thorri.

Serch hynny, nid yw'r DG yn gwbl rydd rhag beirniadaeth ar faterion hawliau dynol:

- Yn ystod y 1970-80au, pan garcharwyd pobl **dan amheuaeth eu bod yn derfysgwyr ym Myddin Weriniaethol Iwerddon (yr IRA)**, treisiodd y llywodraeth hawliau dynol rhai carcharorion trwy ganiatáu yr hyn a ddisgrifiwyd gan y Llys Barn Ewropeaidd dros Hawliau Dynol fel "ymdriniaeth greulon ac annynol".
- Er bod y Ddeddf Hawliau Dynol yn gymwys i'r llywodraeth, nid oes gan y llysoedd unrhyw allu i atal **Deddf Seneddol** newydd sy'n ei thorri.
- Ychydig iawn o drafod a gafwyd yn y Senedd cyn cyflwyno **Deddf Gwrthderfysgaeth, Trosedd a Diogelwch** (2001): dyfarnwyd bod mesurau'r Ddeddf ar gyfer carcharu rhai dan amheuaeth o fod yn derfysgwyr yn anghyfreithlon dan y Ddeddf Hawliau Dynol.
- Mae'r **Ddeddf Gwrthderfysgaeth** (2005) yn caniatáu arestiad tŷ rhai sydd dan amheuaeth o fod yn derfysgwyr lle nad oes digon o dystiolaeth i'w dwyn ger bron llys barn. Disodlodd hwn Deddf 2001, mae'n dal i ganiatáu i'r llywodraeth i ddewis peidio ag anrhydeddu rhai hawliau dynol.

## CASE STUDY 2: SAUDI ARABIA



The human rights situation in Saudi Arabia is generally considered to be poor. Its royal family enforces strict laws under an extreme version of **sharia** (Islamic religious law). This violates some of the basic freedoms in the *Universal Declaration*. The following issues are of particular concern:

- Saudi Arabia's courts regularly impose the **death penalty** (including public beheadings), sometimes after a poor legal process. **Corporal punishment** is also used.
- By European standards there is severe **sexual discrimination**. Religious police enforce strict dress codes for women; women may not drive or ride bicycles in public; and men and women are segregated in schools, restaurants and government ministries.
- In 2005, the Saudi government breached international standards against **human trafficking** (illegally transporting people, often for use as cheap labour or prostitutes).
- **Freedom of speech** is highly restricted: it is illegal to criticise the government or endorse 'non-Islamic' values. Trade unions and public demonstrations are forbidden.
- While Christianity is tolerated, all **religions other than Islam** are banned.

Amnesty International has described the Saudi government as "accountable only to itself", particularly as it does not allow external organisations to monitor human rights. Amnesty also believes that countries like the UK should do more to expose and change Saudi Arabia's poor human rights record.

## ASTUDIAETH ACHOS 2: SAWDI ARABIA

Y farn gyffredinol yw bod sefyllfa hawliau dynol yn Sawdi Arabia yn wael. Mae'r teulu brenhinol yn gweithredu deddfau caeth dan fersiwn eithafol o **sharia** (cyfraith grefyddol Islam). Mae hyn yn treisio rhai o'r hawliau sylfaenol sydd yn y *Datganiad Cyffredinol*. Mae'r materion canlynol yn achosi pryder arbennig:

- Mae llysoedd Sawdi Arabia yn defnyddio'r **gosb eithaf** (gan gynnwys dienyddio'n gyhoeddus) yn rheolaidd, a hynny nawr ac yn y man wedi proses gyfreithiol annigonol. Defnyddir **cosbi corfforol** hefyd.
- Yn ôl safonau Ewropeaidd mae yna **wahaniaethu dybryd ar sail rhyw**. Mae'r heddlu crefyddol yn gorfodi rheolau caeth yng nghyswllt gwisg ar wragedd. Ni chaiff menywod yrru ceir na beiciau yn gyhoeddus, a chedwir menywod a dynion ar wahân mewn ysgolion, bwytai ac adrannau'r llywodraeth.
- Yn 2005, torrodd llywodraeth y wlad rheolau safonau cydwladol yn erbyn **y fasnach mewn pobl** (trawsforio pobl yn anghyfreithlon, yn aml i'w defnyddio fel llafur rhad neu buteiniaid).
- Mae cyfyngiadau llym ar **ryddid ymadrodd**: mae'n anghyfreithlon i feirniadu'r llywodraeth neu goleddu gwerthoedd 'anIslamaidd'. Gwaherddir undebau llafur a gwrthdystiadau cyhoeddus.
- Er y caiff Cristnogaeth ei goddef, gwaherddir **pob crefydd ond Islam**.

Disgrifiodd Amnest Rhyngwladol lywodraeth Sawdi Arabia fel un "sy'n atebol i neb ond hi ei hun", yn arbennig gan nad yw'n caniatáu i gyrff allanol i fonitro hawliau dynol. Mae Amnest hefyd yn credu y dylai gwledydd fel y DG wneud mwy i ddatgelu a newid record gwael Sawdi Arabia.

## HUMAN RIGHTS IN EUROPE

### *European Convention on Human Rights*

This Convention was adopted by the Council of Europe (an international organisation separate from the European Union) in 1950. Its aim is to protect human rights and basic freedoms. The Convention has 18 articles and 13 additional protocols, including:

**Article 4**: prohibits slavery and forced labour.

**Article 6**: provides the right to a fair trial.

**Protocol 13**: requires countries to abolish the death penalty entirely.

### *European Court of Human Rights*

Based in Strasbourg, this Court's job is to make sure that countries respect the rights in the Convention, by examining complaints from individuals or countries. If the Court finds that a country has violated human rights, the country is expected to provide financial compensation for the victim, or refund legal expenses. However, the Court may not overrule national decisions or laws.

Two notable cases include:

- **1980**: the court ruled that Article 2 of the Convention (the right to life) cannot apply to an unborn foetus, because its life "cannot be regarded in isolation from the life of the pregnant woman".
- **2004**: the court agreed to hear cases of human rights abuses brought by civilians from Chechnya (a Russian republic fighting a war of independence) against the Russian Federation.

## HAWLIAU DYNOL YN EWROP

### *Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Mabwysiadwyd y Confensiwn gan Gyngor Ewrop (sefydliad cydwladol sydd yn wahanol i'r Undeb Ewropeaidd) ym 1950. Ei nod yw amddiffyn hawliau dynol a mathau sylfaenol o ryddid. Rhennir y Confensiwn yn 18 erthygl, ac ychwanegwyd 13 datganiad yn ddiweddarach, yn cynnwys:

**Erthygl 4**: sy'n gwahardd caethwasiaeth a llafur dan gymhelliant.

**Erthygl 6**: sy'n rhoi'r hawl i gael achos llys teg.

**Datganiad 13**: sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i wledydd ddiddymu y gosb eithaf.

### *Y Llys Barn Ewropeaidd dros Hawliau Dynol*

Gyda'i bencadlys yn Strasbourg, gwaith y Llys yw sicrhau bod gwledydd yn parchu'r hawliau sydd yn y Confensiwn, trwy ymchwilio i gwynion gan unigolion neu wledydd. Os yw'r Llys yn gweld bod gwlad wedi treisio hawliau dynol, disgwylir i'r wlad honno gynnig iawndal ar gyfer y dioddefwr, neu ad-dalu'r costau cyfreithiol. Fodd bynnag, ni chaiff y Llys ddyfarnu yn erbyn penderfyniadau neu reolau cenedlaethol.

Dyma ddau achos nodedig:

- **1980**: dyfarnodd y llys na all Erthygl 2 yn y Confensiwn (yr hawl i fywyd) fod yn berthnasol i ffetws sydd heb ei eni, oherwydd "nad oes modd ystyried ei fywyd heb ystyried hefyd fywyd y wraig feichiog".
- **2004**: cytunodd y llys i glywed achosion o darfu ar hawliau dynol a ddygwyd gan bobl gyffredin o Chechnya (gweriniaeth Rwsiaidd sydd yn ymladd rhyfel dros annibyniaeth) yn erbyn y Ffederasiwn Rwsiaidd.

## LEARN MORE

- CEWC-Cymru's online teachers' resource, *Citizenship Today*, contains many activities on human rights. Two versions are available: Key Stages 1 & 2 and Key Stages 3 & 4. Registration costs £20 and can be completed at **www.cewc-cymru.org.uk**.
- Our staff can provide classroom workshops on human rights, for any age group and with any number of students.
- The United Nations Association Wales has produced a bilingual booklet of the *Universal Declaration of Human Rights*, and a Welsh-language poster of the Declaration. Contact **unawales@wcia.org.uk** for more details.

## CAEL GWYBOD RHAGOR

- Mae adnodd dwyieithog, ar-lein CEWC-Cymru ar gyfer athrawon, *Dinasyddiaeth Heddiw*, yn cynnwys llawer o weithgareddau am hawliau dynol. Mae dwy fersiwn ar gael: Cyfnodau Allweddol 1 & 2 a Chyfnodau Allweddol 3 & 4. Cost cofrestru yw £20 ac mae modd gwneud hynny ar **www.cewc-cymru.org.uk**.
- Gall ein staff gynnig gweithdai yn yr ystafell ddosbarth ar hawliau dynol, a hynny ar gyfer unrhyw garfan oedran ac unrhyw nifer o ddisgyblion.
- Mae Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig Cymru wedi cynhyrchu llyfryn poced dwyieithog o'r *Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol*, a phoster o'r Datganiad yn Gymraeg. Cysylltwch â **unawales@wcia.org.uk** am ragor o fanylion.

## HERE ARE SOME USEFUL WEBSITES: / DYMA GWEFANNAU O DDEFNYDD I CHI:

Amnesty International – Education / Amnest Rhyngwladol – Addysg .......... **www.amnesty.org.uk/education**

Democracy and Human Rights Education in Europe / Addysg Hawliau Dynol a Democratiaeth yn Ewrop .......... **www.dare-network.org**

European Court of Human Rights / Y Llys Barn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol .......... **www.echr.coe.int/echr**

Human Rights Education Associates .......... **www.hrea.org**

Human Rights Unit (UK government) / Uned Hawliau Dynol (Llywodraeth y DG) .......... **www.humanrights.gov.uk**

Human Rights Watch .......... **www.hrw.org**

Liberty (UK civil liberties organisation / corff rhyddid sifil yn y DG) .......... **www.liberty-human-rights.org.uk**

National Campaign on Dalit Human Rights / Yr Ymgyrch Genedlaethol o blaid Hawliau Dynol i'r Dalit .......... **www.dalits.org**

United Nations High Commissioner for Human Rights /
Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol .......... **www.ohchr.org**

Universal Declaration of Human Rights / Y Datganiad Cyffredinol ar Hawliau Dynol .......... **www.un.org/Overview/rights.html**




FFÔN/TEL 029 2022 8549 FFACS/FAX 029 2064 0333 E-BOST/E-MAIL cewc@wcia.org.uk CEWC-CYMRU Y DEML HEDDWCH/TEMPLE OF PEACE • PARC CATHAYS/CATHAYS PARK • CAERDYDD/CARDIFF • CF10 3AP